Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Canolfan Addysg Nant-y-Bryniau
Ysbyty Abergele
Ffordd Llanfair
Abergele
Conwy
LL22 8DP

19/03/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad interim:** Chwefror 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr â Chanolfan Addysg Nant y Bryniau yn ddiweddar i ystyried sut mae'r Ganolfan Addysg wedi gwneud cynnydd o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad o'r arolygiad craidd ym mis Mai 2023, yn ogystal â gwerthuso cynnydd yn erbyn un o'r blaenoriaethau yng nghynllun datblygu'r ysgol.

Hoffai'r tîm ddiolch i'r staff a'r disgyblion yn y Ganolfan Addysg am eu cydweithrediad â'r ymweliad hwn ac am y croeso gwresog a gawsant.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i arsylwi addysgu a dysgu, edrych ar waith disgyblion, craffu ar dystiolaeth a siarad â disgyblion, staff, ac arweinwyr.

Mae arweinwyr a staff yn y Ganolfan Addysg yn meddu ar ddealltwriaeth glir a gwybodus o'i chryfderau a'i meysydd i'w datblygu ar hyn o bryd, ac mae ganddynt gynlluniau priodol ar waith i yrru gwelliant a chynnydd parhaus.

Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn y ddau argymhelliad.

## Ffocws yr ymweliad

## Cryfhau rôl y pwyllgor rheoli

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi gwneud cynnydd addas yn egluro a chryfhau rôl a chyfrifoldebau'r pwyllgor rheoli. Mae newidiadau a wnaed i aelodaeth pwyllgor rheoli'r ganolfan addysg yn dechrau cefnogi gwelliant yn briodol. Mae aelodaeth y pwyllgor wedi ehangu ac yn dod â medrau ac arbenigedd ychwanegol gwerthfawr i

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd,
CF24 5JW Ffôn: 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru
www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road,
Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920
446446 enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

gefnogi gwaith y ganolfan addysg. Mae hyn yn cynnwys aelodau o'r sector iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, seicoleg addysg, a swyddogion cyswllt â chleifion a theuluoedd.

Ers yr arolygiad craidd, mae gan aelodau o'r pwyllgor rheoli rolau a chyfrifoldebau cliriach. Mae'r rhain bellach yn cynnwys goruchwyliaeth benodol o feysydd allweddol fel addysgu a dysgu a lles, gofal, cymorth ac arweiniad. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cyd-fynd yn dda â medrau a phrofiad aelodau, sy'n eu galluogi i gyfrannu'n fwy effeithiol at waith y pwyllgor.

Mae arweinwyr yn y ganolfan addysg wedi cryfhau cyfathrebu ag aelodau o'r pwyllgor rheoli trwy rannu gwybodaeth yn gliriach ac yn fwy cyson. Erbyn hyn, maent yn darparu adroddiadau rheolaidd, ynghyd â chylchlythyrau tymhorol buddiol. Yn ychwanegol, sefydlwyd platfform digidol ar y cyd, gan roi cyfle uniongyrchol i aelodau fynd at ddogfennau allweddol a gwybodaeth hanfodol, pryd bynnag mae eu hangen. O ganlyniad, mae disgwyliadau ar gyfer aelodau'r pwyllgor rheoli bellach yn gliriach ac yn cael eu deall yn fwy cyson.

Megis dechrau cryfhau ei rôl ym mywyd a gwaith y ganolfan addysg y mae'r Pwyllgor Rheoli. Mae ychydig o aelodau wedi ymweld â'r ganolfan yn ddiweddar i ddechrau deall cryfderau'r ganolfan, yn enwedig mewn cysylltiad â lles ac ymgysylltiad dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn wedi cael eu hymgorffori'n llawn eto, ac mae hyn yn gynnydd araf o adeg yr arolygiad craidd.

Nid yw rôl y pwyllgor mewn dadansoddi data perfformiad yn systematig, gwerthuso effaith strategaethau gwella a darparu her strategol gadarn, wedi'i datblygu'n ddigonol o hyd. O ganlyniad, nid yw prosesau llywodraethu yn ddigon craff eto o ran dwyn arweinwyr i gyfrif am bob agwedd ar berfformiad a gwelliant.

## Datblygu'r cwricwlwm

Mae arweinwyr wedi nodi bod datblygu'r cwricwlwm yn flaenoriaeth allweddol o fewn eu cynllun datblygu ysgol, ac wedi sefydlu gweledigaeth glir a chyd-destunol briodol ar gyfer y cwricwlwm yn y lleoliad hynod arbenigol hwn. Mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio i integreiddio cymorth ac addysg therapiwtig, ac mae lles wedi'i osod yn briodol yn sylfaen ar gyfer dysgu. Mae'r model integredig hwn yn gryfder sylweddol ac yn adlewyrchu dealltwriaeth gadarn o anghenion iechyd meddwl cymhleth dysgwyr sy'n defnyddio'r ddarpariaeth.

Mae'r fframwaith cwricwlwm yn darparu llwybrau cydlynus ar draws ystodau oedran, yn cynnwys rhaglen ôl-16 strwythuredig 'Real World Ready'. Mae'n galluogi rhaglenni hynod bersonoledig tra'n cynnal ehangder priodol. Mae arweinwyr wedi mabwysiadu dull hyblyg

o gyflwyno, sy'n hanfodol o ystyried natur arhosiad byr lleoliadau, anghenion cymhleth ac amrywiol disgyblion a'r ystod eang o ysgolion prif ffrwd a cholegau a gynrychiolir ledled Gogledd Cymru.

Mae disgyblion yn trosglwyddo o ystod eang o ysgolion a cholegau ledled Gogledd Cymru ac yn amrywio o ran oedran, gallu a phrofiadau dysgu blaenorol. Mae ysgolion ar draws y rhanbarth wedi cynllunio gwahanol themâu a dulliau asesu yn unol â Chwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn arwain at amrywioldeb mewn profiadau dysgu ac asesu blaenorol pan fydd disgyblion yn ymuno â'r lleoliad. Fodd bynnag, mae'r tîm yn y ganolfan addysg yn sicrhau bod addysgu'n cyd-fynd yn ofalus â llwybrau cymhwyster unigol a dysgu blaenorol trwy sicrhau cyfathrebu cryf â'r ysgolion. O ganlyniad, gall disgyblion barhau â themâu a gofynion asesu perthnasol o'u hysgolion a'u colegau cartref. Mae'r hyblygrwydd hwn yn gryfder sylweddol yn y ganolfan.

Mae addysgu yn gryf iawn. Mae cynllunio yn dangos gwybodaeth bynciol gadarn, dilyniannu clir o fewn pynciau ac fe gaiff themâu trawsbynciol eu hintegreiddio'n ystyrlon o fewn gweithgareddau dysgu. Mae profiadau ymarferol a chymhwysol yn bwrpasol ac yn dyfnhau dealltwriaeth gysyniadol. Yn ychwanegol, mae'r profiadau hyn yn cryfhau medrau cyfathrebu, rhifedd a datrys problemau.

Mae arweinwyr wedi datblygu dull arloesol sy'n integreiddio proffilio lles unigol mewn gwersi rhifedd a chymhwysedd digidol, gan alluogi disgyblion i ddadansoddi data ystyrlon a phersonoledig. Mae hyn yn cryfhau ymgysylltu ac yn sicrhau bod dysgu yn academaidd bwrpasol ac yn uniongyrchol berthnasol i anghenion lles disgyblion.

Mae arweinwyr yn mesur cynnydd mewn ffyrdd sy'n briodol i iechyd, gweithrediad a mannau cychwyn disgyblion, gan sicrhau bod datblygiad academaidd a lles, ill dau, yn cael eu hystyried yn gyfannol. At ei gilydd, mae'r cwricwlwm yn eang, yn uchelgeisiol ac yn hynod ymatebol. Mae hyblygrwydd y cynnig cwricwlwm yn y ganolfan addysg yn gryfder sylweddol, gan alluogi staff i gynnal disgwyliadau uchel tra'n addasu'n sensitif i anghenion lles sylweddol a chyd-destunau cwricwlaidd amrywiol presennol y disgyblion.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr UCD a mwy o wybodaeth am y broses a diben ymweliadau interim ar ein gwefan: [https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/canolfan-addysg-nant-y-bryniau-education-centre-cy/](https://www.estyn.llyw.cymru/darparwyr/canolfan-addysg-nant-y-bryniau-education-centre-cy/)

Yn gywir

**Dyfrig Ellis**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol